# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)02-08 (p7): 31 Ionawr 2008

## Cyfeirnod y ddeiseb P-03-100: ‘Agorwch ein Cyffordd’

### Geiriad y ddeiseb

‘Annwyl Mr Ieuan Wyn Jones – Rwyf i/Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn erfyn arnoch i ailfeddwl penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gadw ‘Cyffordd Tesco’ Aberteifi ar gau ac i’w hailagor gyda chynllun newydd a fydd yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch’

### Diben

Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y ddeiseb hon, sydd wedi’i harwyddo gan dros 1450 o drigolion tref Aberteifi a’r ardal gyfagos yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ailystyried ei benderfyniad i gadw cyffordd ‘Tesco’ Aberteifi ar gau a’i hailagor gyda chynllun newydd a fydd yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch.

### Cefndir

### Mae’r wybodaeth a ddarparwyd gyda’r deisebau’n mynnu:

Bod ‘Cyffordd Tesco’ wedi ei lleoli ar y mynediad gogleddol i dref Aberteifi ar y ffordd osgoi.

Yn dilyn nifer o ddamweiniau yn 2003 (rhai ohonynt yn angheuol), caewyd y gyffordd ac mae’n dal i fod ar gau 5 mlynedd yn ddiweddarach.

### Mae amryw o broblemau oherwydd bod y gyffordd ar gau, yn arbennig:

Mae’n cynyddu tagfeydd traffig a phellter gyrru trwy wyro’r traffig drwy’r ganol y dref (gyda chynnydd sylweddol yn lefelau llygredd lleol o ganlyniad i hynny)

Mae cau’r mynediad o gyfeiriad y gogledd yn rhoi’r argraff bod Aberteifi ‘ar gau ar gyfer busnes’

### Dyma’r sefyllfa bresennol o ran y gyffordd:

Comisiynwyd astudiaeth annibynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn pwyso a mesur trefniadau eraill, a oedd yn awgrymu atebion posibl gan gynnwys goleuadau traffig, cylchfan a system gylchu

Yn gynnar y flwyddyn ddiwethaf, ysgrifennodd y Gweinidog at Gyngor Sir Ceredigion yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i gau'r gyffordd yn barhaol.

Fis Tachwedd diwethaf, addawodd y Gweinidog presennol, Ieuan Wyn Jones adolygu’r achos – arhoswn am ei farn, ond yn y cyfamser, trefnwyd y ddeiseb hon er mwyn dangos cryfder y teimladau yn yr ardal leol y dylai rhyw gamau gael eu cymryd.

Parodrwydd y Deisebwyr i gyflwyno Tystiolaeth Lafar

Mae’r deisebwyr wedi nodi y byddent yn fodlon ymddangos gerbron y Pwyllgor i gyflwyno’u hachos pe caent wahoddiad i wneud hynny.

### Camau i’w cymryd gan y Pwyllgor

Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y ddeiseb a phenderfynu pa gamau i’w cymryd.

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

### Ionawr 2008